OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 3345 (Cy.259)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *6 Rhagfyr 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *7 Rhagfyr 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 140(4), a (143)(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 7 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**3.** O ran y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2006, diwygir Atodlenni 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2, yn lle "1.009" rhoddir "1.004"; a

(b) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992, rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 1992/3238, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289), 2003/3211 (Cy.304) a 2004/3232 (Cy.280).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
6 Rhagfyr 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Regulation 3

“SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

| Billing authority area | Prescribed figure |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 53,000 |
| Bridgend | 101,100 |
| Caerphilly | 130,200 |
| Carmarthenshire | 139,200 |
| Cardiff | 247,700 |
| Ceredigion | 63,800 |
| Conwy | 88,900 |
| Denbighshire | 75,000 |
| Flintshire | 116,400 |
| Gwynedd | 93,000 |
| Isle of Anglesey | 54,000 |
| Merthyr Tydfil | 42,200 |
| Monmouthshire | 67,800 |
| Neath Port Talbot | 106,300 |
| Newport | 105,600 |
| Pembrokeshire | 91,100 |
| Powys | 103,000 |
| Rhondda Cynon Taf | 178,800 |
| Swansea | 178,600 |
| Torfaen | 69,500 |
| Vale of Glamorgan (The) | 93,700 |
| Wrexham | 101,900” |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol

Cymru. Mae'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r symiau hynny wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglŷn â'r swm gros), ac Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion).